STEDDFOTA

Cylchlythyr Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Rhif 74 | Hybu eisteddfodau, cynnal cymunedau | Tachwedd 2025

DIOLCH O GALON

Daeth cyfle eto, ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol, i gydnabod cyfraniad eithriadol unigolion gweithgar yn niwylliant eisteddfodau lleol Cymru, a thro gwirfoddolwyr o eisteddfodau'r gogledd oedd hi i gael eu henwebu eleni.

Roedd hi'n hyfryd i weld pabell Llywodraeth Cymru dan ei sang, wrth i ddeg ar hugain o wirfoddolwyr gael eu hanrhydeddu - pob un ohonynt yn allweddol i lwyddiant eu heisteddfodau ers nifer arwyddocaol o flynyddoedd.

Croesawyd pawb gan Megan Jones Roberts, cadeirydd Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, a diolchodd i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth barhaus, a'u cydweithrediad yn nhrefniadau'r seremoni. Yn ogystal, mynegodd ei balchder bod 30 o dystysgrifau'n cael eu cyflwyno eleni fel arwydd o ddiolch am wasanaeth di-flino yr unigolion.

Llywiwyd y cyfan yn gelfydd gan Angharad Mair, y gyflwynwraig boblogaidd, a braf oedd ei chlywed hithau hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cyfraniad eisteddfodau i'n diwylliant. Rydym yn ddiolchgar iawn iddi am ei chynhesrwydd a'i phroffesiynoldeb wrth gyflwyno cefndir a hanes pob un, a'u gwahodd i dderbyn eu tystysgrifau.

Roedd y balchder yn amlwg wrth iddynt gamu i'r llwyfan a hyfryd iawn oedd profi hyn. Caiff hyn ei grynhoi gan y criw o Eisteddfod Calan Mai Aberystwyth a dderbyniodd dystysgrif - "Braint oedd cael ein hanrhydeddu mewn seremoni arbennig. Wrth wrando ar gyfraniadau y gwirfoddolwyr roedd yn hollol amlwg pa mor bwysig yw eu gwaith i'r eisteddfodau lleol yma."

Pleser oedd medru cynnal y digwyddiad arbennig hwn eleni eto, a rhoi'r sylw haeddiannol i eisteddfodwyr ffyddlon. Diolch i bawb fu'n rhan o lwyddiant y digwyddiad. Edrychwn ymlaen at 2026!

Gellir gweld rhagor o luniau ar dudalen 6.

WYNEB NEWYDD

Rydym yn falch o rannu bod Cymdeithas Eisteddfodau Cymru wedi penodi swyddog newydd yn ystod mis Awst. Darllenwch ei hanes ar dudalen 3.

AELODAETH FLYNYDDOL i EISTEDDFODAU LLEOL £20

YN DALADWY DRWY SIEC NEU ARCHEB BANC

Yr holl fanylion angenrheidiol a ffurflen ymaelodi ar www.steddfota.cymru

CYSTADLAETHAU 2025-2026

Manylion, Sgriptiau ac Amodau ar www.steddfota.cymru

Enillydd Tlws yr Ifanc 2024-2025: Aeron Dafydd

Dyma rai o enillwyr Tlws yr Ifanc eisteddfodau lleol 2025, fydd yn gymwys ar gyfer cystadlu yn Eisteddfod y Garreg Las 2026. Pwy fydd yn ymuno efo nhw tybed? Eisteddfodau - cofiwch anfon y darnau atom!

SWYDDOG NEWYDD

Dyma gyflwyno ein Swyddog Datblygu newydd, Sian Evans, sy'n ymuno â'n tîm gyda'i phrofiad helaeth yn y maes datblygu prosiectau diwylliannol, gan gynnwys gweithio gyda'r Urdd, Mentrau Iaith ac Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru.

Bu Sian, sy'n wreiddiol o Benrhyndeudraeth, ond bellach yn byw yn Llandysul gyda'i theulu ifanc, yn gystadleuydd brwd yn eisteddfodau Gwynedd pan yn iau.

Mae'n edrych ymlaen at gydweithio gyda phwyllgorau'r eisteddfodau lleol i annog a chefnogi twf ein traddodiad eisteddfodol.

Croeso Sian!

Mae Nanw MacIntyre Huws 14 oed o Glynnogfawr wedi cychwyn busnes bach yn gwneud a gwerthu cadeiriau bychain i eisteddfodau lleol.

Meddai Nanw, a enillodd Gadair Eisteddfod Ieunenctid Bontnewydd eleni, "Rydw i wedi cychwyn y wefan yma am sawl rheswm. Roeddwn i eisiau dysgu rhywfaint ar sut mae busnes bach yn gweithio, cefnogi eisteddfodau lleol a dysgu crefft newydd. Fel cyd-ddigwyddiad enw ein cartref yw 'Bryn Eisteddfod' (a gafodd yr enw gan fardd a phregethwr o'r enw Hywel Tudur, tua 1900). Mae fy nhad yn barddoni a rydw innau hefyd wedi ennill Tlws yr Ifanc Ysgol Brynrefail a Chadair Eisteddfod Ieuenctid Bontnewydd. Rydw i wrth fy modd yn mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn ac mae byd yr eisteddfodau yn agos iawn at ein calonnau fel teulu."

Felly, os yw eich eisteddfod chi eisiau cadair bydd Nanw'n falch iawn o glywed gennych - ond cysylltwch ar ôl 4:00 y p'nawn gan y bydd hi ar ei ffordd adref o'r ysgol cyn hynny!

EISTEDDFOD NEWYDD

Yn dilyn llwyddiant ysgubol Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr yn gynharach eleni, fe ysbrydolwyd criw o garedigion y Gymraeg a'r pethe i sefydlu Eisteddfod flynyddol ar gyfer ein hardal.

Eisteddfod Cwm Tawe

Bu cryn fwrlwm yng nghymunedau Cwm Tawe dros y ddwy flynedd ddiwethaf wrth i bwyllgorau ddod ynghyd i godi arian a threfnu gweithgareddau i groesawu'r Eisteddfod i'r ardal, a chymaint fu'r hwyl nes y cytunwyd mai da o beth fyddai parhau. Felly, ar **ddydd Sadwrn yr 28ain o Chwefror 2026**, bydd **Eisteddfod Cwm Tawe** yn cael ei chynnal am y tro cyntaf gan roi cyfle penigamp i drigolion y cwm i ddod ynghyd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Diolch i gefnogaeth Canolfan Celfyddydau Pontardawe mae'r lleoliad yn ei le ac mae'r pwyllgor yn prysur gwblhau'r rhestr testunau. Bydd cystadlaethau ar gyfer plant, pobl ifanc, ac oedolion a hynny ar lwyfan a thrwy waith cartref. Bydd ystod o gystadlaethau lleisiol, llefaru, offerynnol, dawns, barddoniaeth, rhyddiaith a chelf – rhywbeth at ddant pawb! Nod y trefnwyr yw cynnal Eisteddfod gynhwysol a chroesawgar gyda chystadlaethau ar gyfer siaradwyr Cymraeg o bob lefel hyder a chyfleoedd i'r di-Gymraeg ddod yn rhan o'r hwyl trwy ymuno mewn cystadlaethau torfol ar y llwyfan neu'r cystadlaethau gwaith cartref celf.

Mae'r pwyllgor wrthi'n brysur yn codi arian ar gyfer yr Eisteddfod gyda nifer o roddion hael eisoes wedi'u derbyn gan gefnogwyr. Bydd hefyd gyfres o weithgareddau i godi arian dros y misoedd nesaf, gan ddechrau gyda noson gwis yng Nghlwb Golff Pontardawe ar y 24ain o Hydref am 7pm ac yna noson gyri yn y Tamarind, Pontardawe ar y 18fed o Dachwedd.

Bydd rhestr o gyfleoedd amrywiol i fusnesau, sefydliadau ac unigolion lleol ac ar draws Cymru i gefnogi trwy roddion neu nawdd yn cael ei rhyddhau yn fuan. Gwerthfawrogwn bob cymorth a chefnogaeth i'r fenter a fydd yn waddol arbennig i Eisteddfod Dur a Môr 2025 ac yn gyfle gwych i gyd-ddathlu'r gorau o'n diwylliant Cymraeg a'n doniau lleol.

Ein gobaith yw gweld cystadlu brwd rhwng trigolion pentrefi Cwm Tawe a'r eisteddfod yn fodd arall o gynnal y Gymraeg a'i thraddodiadau yn y cwm a'r ardal ehangach.

Gwenno Ffrancon, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith

O 'STEDDFOD I 'STEDDFOD

EISTEDDFOD TRALLONG

Côr Meibion Aberhonddu - cefnogwyr ffyddlon yr eisteddfod

Lea Mererid - y cystadleuydd gyda'r mwyaf o botensial, a cherddor gorau'r eisteddfod ym marn y beirniaid

EISTEDDFOD Y FENNI

Dwy o offerynnwyr ac unawdydd disglair ar ddiwrnod yr eisteddfod

EISTEDDFOD RHYS THOMAS JAMES (PANTYFEDWEN) LLANBEDR PONT STEFFAN

Aron a Wil, Ysgol Bro Pedr - enillwyr y Cyflwyniad Digri

Alaw Mai Edwards, Corwen - enillydd y Fedal Ryddiaith

EISTEDDFOD GADEIRIOL TREGARON

Kees Huysmans - yr Her Unawdydd buddugol

Bardd y Gadair - Anwen James, Llangeitho

EISTEDDFOD LLANDYRNOG

Ensemble Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun

Enillydd y Gadair - Dion Gregory, Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug

EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANWRTYD

Tri o unawdwyr ffyddlon yr eisteddfod

Bardd y Gadair - Iwan Thomas, Ciliau Aeron

EISTEDDFOD GADEIRIOL Y TYMBL

Côr Bois y Strade - buddugol yn y gystadleuaeth gorawl

Bardd y Gadair - Beti-Wyn James, Abergwili

EISTEDDFOD GADEIRIOL TREFEGLWYS

Heledd Besent, enillydd yr Unawd Gymraeg, yn derbyn Tlws Coffa Gwynfryn Evans

Bardd y Gadair - Eifion Daniels, Blaenffos

EISTEDDFOD GADEIRIOL TREUDDYN

Bardd y Gadair - Menna Medi

Dau o'r enillwyr ifanc

EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANARTH

Enillydd cadair yr eisteddfod - Mali Evans, Talgarreg

EISTEDDFOD GADEIRIOL BANCFFOSFELEN

Llond llwyfan o enillwyr lleol llwyddiannus ym Mancffosfelen

Cyflwynwyd Cwpan Her Mr a Mrs Geraint Hughes a'r teulu i'r llefarydd mwyaf addawol dan 12 oed

LLONGYFARCHIADAU!

DIOLCH YN FAWR I'R HOLL FFOTOGRAFFWYR

Mwy o luniau a chanlyniadau ar www.steddfota.cymru

Edrychwn ymlaen at rannu blas o fyd yr eisteddfodau gyda chi yn y Steddfota nesaf. Pob hwyl gyda'r cystadlu!

ANRHYDEDDU GWIRFODDOLWYR

Diolch am flynyddoedd o wasanaeth i'ch Eisteddfod leol

Delyth Wyn Davies a Jean Evans
Eisteddfod Gadeiriol Chwilog

Hefina Williams, Ellis Wyn Roberts, Victor Hughes, Dic Pritchard a Trefor Edwards
Eisteddfod Môn

Tegwen Morris, Llinos Bonsall, Sian Pryce Edwards, Julie Williams a Lona Phillips
Eisteddfod Calan Mai Aberystwyth

Dennis Davies
Eisteddfod Dyffryn Conwy Llanrwst

Aled Jones, Ann Coleman a Helen Davies
Eisteddfod Bro Llandegfan

Gwyn J Williams, Alun Hughes ac Eleanor Roberts
Eisteddfod Melin y Coed

Ceinwen Price
Eisteddfod Ieuenctid Marian-glas

Cledwyn Roberts a Joyce Lloyd
Eisteddfod Dyffryn Elwy

Neville Hughes
Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

Ann Davies ac Alwyn Williams
Eisteddfod Bro Aled Llansannan

Margaret Jones a Beti Owen
Eisteddfod yr Hen Gapel Llanbrynmair

Helen Roberts, Christopher Enston a Carys Hughes
Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn

Angharad Mair, Megan Jones Roberts a Bethan Webb (Llywodraeth Cymru)

WYTHNOS YN WRECSAM

Cawsom wythnos brysur o weithgareddau yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam eleni, a'r nod, fel arfer, oedd hyrwyddo gwaith y Gymdeithas ac hefyd wrth gwrs rhoi sylw i weithgarwch yr eisteddfodau lleol. Braf felly oedd cael y cyfle i groesawu llif cyson o ymwelwyr, o bob rhan o Gymru, yn ddyddiol.

Cafwyd gwledd o adloniant gan artistiaid a pherfformwyr yn ystod yr wythnos - Mared Williams, Gildas, Côr Lleisiau Ceiriog, Lleucu Llyfrau, Dylan Cernyw a Tudur Phillips. Diolch o galon.

Daeth nifer o gefnogwyr ynghyd ar gyfer cyfarfod blynyddol y Gymdeithas, a gynhaliwyd ar y stondin am y tro cyntaf eleni. Croesawyd dau siaradwr atom i'n hannerch, sef Osian Owen (Eisteddfod y Felinheli) a Iolo Roberts (Eisteddfod Pontypridd). Diolch i'r ddau am gyflwyniadau brwdfrydig, yn sôn am brofiadau'r ddwy eisteddfod newydd hon. Difyr a diddorol.

Ar y p'nawn Sadwrn cyntaf, cynhaliwyd cystadleuaeth Gorawl Cymdeithas Eisteddfodau Cymru. Mewn cystadleuaeth safonol iawn, llongyfarchiadau i'r tri côr ddaeth i'r brig– 1af Côr Esceifiog, 2il Côr Dre, 3ydd Côr Cantilena.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i enillydd Tlws yr Ifanc 2024-2025 - Aeron Dafydd, o ardal Llandysul. Cynhaliwyd seremoni wobrwyo yn y Babell Lên ar y p'nawn Sul, a braf oedd clywed canmoliaeth uchel i'r gystadleuaeth. Enillwyr y raffl ar ddiwedd yr wythnos oedd: Ceri Davies, Eglwysbach; Cris Jones, Llanllyfni a Helen Gibbon, Capel Dewi. Diolch i gwmni Teithiau Elfyn Thomas am noddi'r raffl eto.

Erbyn hyn mae ein sylw'n troi at Sir Benfro, ac Eisteddfod y Garreg Las 2026. Welwn ni chi yno!

Cyfarchion o ddyfnderoedd ystafell gynllunio Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd!

Cynhelir yr eisteddfod nesaf ar **nos Wener 6 Chwefror 2026**, yn Ysgol Glantaf, Ystum Taf, unwaith eto.

Mae rhai newidiadau o ran yr amserlen gyda ni ar y gweill, yn seiliedig ar adborth gan gystadleuwyr, felly cadwch lygad allan am fwy o wybodaeth yn y misoedd nesaf.

Mae'r pwyllgor wedi bod wrth eu gwaith dros y misoedd diwethaf, yn dod o hyd i feirniaid gwaith cartref, a llwyfan. Ry'n ni'n falch o gyhoeddi mai'r beirniaid gwaith cartref eleni yw Gwennan Evans (rhyddiaith), Gruffudd Owen (barddoniaeth) ac Irfon Bennett (ffotograffiaeth).

Cewch wybod am y beirniaid llwyfan eto!

Fel yr arfer, bydd gofyn i chi gyflwyno eich gwaith cartref drwy'r porthol cystadlu ar wefan yr eisteddfod (www.eisteddfodcaerdydd.cymru) lle gwelir holl fanylion y cystadlaethau hefyd. Mae'r testunau ar wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yn ogystal (www.steddfota.cymru).

Ewch ati i gystadlu, a chofiwch anfon eich ceisiadau erbyn 4 Ionawr 2026.

Sioned Wyn,
Cadeirydd Pwyllgor yr Eisteddfod

Cymdeithas Llefaru Cymru

EISTEDDFODAU 2025-2026

CEFNOGWCH EICH 'STEDDFOD LEOL!

Gyda diwedd 2025 yn agosáu, dyma'r eisteddfodau sydd wedi'u cadarnhau, am weddill y flwyddyn, a misoedd cyntaf 2026. Cofiwch bod y rhestr eisteddfodau ar www.steddfota.cymru yn cael ei diweddaru wrth i ni dderbyn dyddiadau. Bydd y rhestrau testunau ar gael i'w lawrlwytho yn ogystal, unwaith y byddwn wedi'u derbyn gan eisteddfodau.
Gofynnwn yn garedig i bwyllgorau gysylltu cyn gynted â byddwch wedi sefydlu dyddiad eich eisteddfod.

8 Tachwedd	Gŵyl Cerdd Dant Aberystwyth a'r Fro	www.cerdd-dant.org		
14-15 Tachwedd	Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen	Lowri Watcyn Roberts	l.roberts11@btinternet.com	07815 093955
15 Tachwedd	Eisteddfod CFfI Cymru	www.cffi.cymru		
22 Tachwedd	Eisteddfod Gadeiriol Aelhaearn	Mary C Jones	mary.jones17@btinternet.com	01286 660768
22 Tachwedd	Eisteddfod Gadeiriol Abergorlech	Heulwen Francis	bethan_griff20@hotmail.com	01558 685398
24 Ionawr	Eisteddfod Gadeiriol Chwilog	Gwyn Parry Williams	gwynarhian@btinternet.com	01766 810717
31 Ionawr	Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch	Esyllt Williams	esylltport@yahoo.com	
31 Ionawr	Eisteddfod Gadeiriol Cenarth	Julia James	jgjames18@icloud.com	01239 710808
6 Chwefror	Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd	Gaenor Mai Jones	cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru	
7 Chwefror	Eisteddfod Llawrplwy' a Phenstryd Trawsfynydd	Menna Davies	mennadolgain@gmail.com	
7 Chwefror	Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog	Geraint Roberts	geraintroberts@btinternet.com	01267 229047
7 Chwefror	Eisteddfod Gadeiriol y Felinheli	Elen Gwenllïan	elengwenllian@googlemail.com	
14 Chwefror	Eisteddfod Flynyddol Abergynolwyn	Ceinwen Jones	ctjones10@outlook.com	01654 782243
21 Chwefror	Eisteddfod Gadeiriol Llanegryn	Nesta Jones	nwjones59@gmail.com	01654 710080
21 Chwefror	Eisteddfod Gadeiriol Brynberian	Ceri Davies	eisteddfa@hotmail.co.uk	01239 891296
27 Chwefror	Eisteddfod Gadeiriol Swyddffynnon	Annwen Isaac	annwen.isaac@btinternet.com	01974 831668
28 Chwefror	Eisteddfod Gadeiriol Crymych a'r Cylch	Ann Davies Awen Evans	ann_capel@yahoo.co.uk alwyn.evans@btconnect.com	01994 419268 01239 891637
28 Chwefror	Eisteddfod Talybont, Rhyduchaf	Kay Rowlands	Kayrowlands22@gmail.com	07805190167
28 Chwefror	Eisteddfod Cwm Tawe		eisteddfodcwmtawe@gmail.com	
6 Mawrth	Eisteddfod Cymdeithas Ceredigion	Gwenda Evans	gwendaevans257@btinternet.com	01239 654552
7 Mawrth	Eisteddfod Llanfihangel-ar-arth a'r Plwyf	Margaret Bowen	wernmacwydd@btinternet.com	01559 362215
20 Mawrth	Eisteddfod Fach Capel Dewi	Catrin Curry Helen Gibbon	machlud2@hotmail.com helengibbon1@btinternet.com	07974760198 07968802227
10 Ebrill	Eisteddfod Gadeiriol Bryngwenith	Y Parch Carys Ann	post@carys-ann.cymru	01239 851005
11 Ebrill	Eisteddfod Gadeiriol Mynytho	Dilwyn Thomas	dilwyn465@btinternet.com	07979733123
17-18 Ebrill	Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch	Ceris Gruffudd	Ceris.Gruffudd@gmail.com	01970 828017
18 Ebrill	Eisteddfod y Groeslon	Emma Lloyd Edwards	emma.lloydedwards@btinternet.com	07786983542
25 Ebrill	Eisteddfod Nedd	Eleri Sparnon Jones	elerisjones@hotmail.com	

SWYDDOG DATBLYGU
Sian Evans
07795164911
sian@steddfota.cymru

YMHOLIADAU CYFFREDINOL
popeth@steddfota.cymru

SWYDDOG CYFATHREBU
Lois Williams
01570 423700/07717842556
lois@steddfota.cymru